



**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2018,**

**Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam, Ffordd
Croesnewydd,
Wrecsam LL13 7YU**

Aelodau Craidd:

Y Cyng Hugh Jones
Ian Bancroft
Rob Smith
Gary Doherty
Simon Smith
Nick Thomas
Angela Tinkler
John Gallanders
Steve Owens
Sue Price
Judith McGaw
Nina Ruddle
Amanda Aldridge

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cadeirydd y cyfarfod)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru (ar ran Lyndsey Rawlinson)
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Heddlu Gogledd Cymru (ar ran Mark Pierce)
Coleg Cambria
Y Gwasanaeth Prawf
Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
Adran Gwaith a Phensiynau (ar ran Lynne Moore)

Cyfranogwyr Cefnogi:

Helen Odunaiya
Mel Kearsley

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (item 4 ar y rhaglen)

Ymddiheuriadau:

Lyndsey Rawlinson
Sioned Rees
Andy Jones

Cyfoeth Naturiol Cymru
Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Prawf

Jason Davenport
Lynne Moore
Mark Pierce

Carchar Ei Mawrhydi Berwyn
Adran Gwaith a Phensiynau
Heddlu Gogledd Cymru

Gweithredu		
1	Croeso a Chyflwyniadau	
	Croesawodd HJ yr Is-gadeirydd, bawb i'r cyfarfod yr oedd yn ei gadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd LR. Rhoddwyd ymddiheuriadau a chyflwyniadau. Croesawodd y grŵp Ian Bancroft, Prif Weithredwr newydd CBSW i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).	
2	Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf 14.06.18	
2.1	Cymeradwywyd. Materion yn codi:	
2.2	Dywedodd AT bod y gwaith o wneud cytundeb partneriaeth 1000 Diwrnod Cyntaf yn unigryw i Wrecsam bron â'i gwblhau a bydd yn cael ei rannu cyn gynted ag y bydd ar gael. Bydd diagram strwythurau yn cael ei rannu hefyd.	AT
2.3	Ni chafwyd gwirfoddolwyr i gefnogi rhai o dasgau'r BGC. Gofynnwyd am gefnogaeth i wneud y wefan yn flaenoriaeth. Awgrymodd NR efallai y byddai hi'n gallu dod o hyd i rywfaint o adnoddau.	NR / HO
3	Diweddariad gan y Bwrdd Cychwyn Iach	
3.1	Rhoddodd AT ddiweddariad i'r BGC am y gwaith hyd yn hyn. I gychwyn, mae'r grŵp yn canolbwyntio ar weithredoedd tymor byr sy'n gysylltiedig â dau faes o waith, "cwsgr" a "bwyd". Mae'r grŵp yn rhagweithiol iawn, a diolch i Sarah Grimley am gefnogi'r grŵp.	AT
3.2	Rhannwyd y cynllun gweithredu a bydd sgoriau RAG yn cael sylw, i roi syniad clir o'r safle cywir erbyn nes ymlaen yn y flwyddyn.	
3.3	Fe soniodd IB am faint o'r gwaith sy'n ymwneud â newid ymddygiad ac rydym angen ystyried sut i gynnwys hyn yn y gwaith.	AT / Pawb
4	Gwerthoedd a Rennir ar gyfer 'Gweithlu Chwarae' yn Wrecsam	
4.1	Cyflwynodd AT yr eitem hon gyda MK, gan ddweud bod yr adroddiad yn gofyn i'r BGC gymeradwyo set o Werthoedd Chwarae.	
4.2	Eglurodd MK bod y set o werthoedd wedi deillio o'r ffaith fod barn broffesiynol am chwarae yn amrywio'n enfawr. Mae hyfforddiant bellach yn cael ei gynnal i ddeall y gwerthoedd a gytunwyd, a gofyn i sefydliadau gytuno arnynt.	
4.3	Awgrymodd HJ bod pobl ifanc yn arwyddo'r gwerthoedd hefyd, gan gynnwys ein hysgolion.	MK / AT
4.4	Awgrymodd GD y dylid ymgysylltu â Therapyddion Chwarae yn Ysbyty Maelor hefyd.	MK / GD
4.5	Roedd y BGC yn cytuno bod hyn yn cyd-fynd â nifer o'n prosiectau, yn enwedig gwirfoddoli, defnyddio'r awyr agored a chyhoeddiad diweddar gan y Comisiynydd Plant, bydd y BGC yn ystyried "Y Ffordd Gywir".	MK / Pawb
4.6	Gofynnodd y BGC ai "Gweithlu Chwarae" oedd y term gorau i'w ddefnyddio gan ei fod yn cysylltu nid yn unig â'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol â chwarae ond â phob gwasanaeth sydd â chysylltiad gyda phlant yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, e.e. priffyrdd o ran dylunio ein strydoedd ac ati.	MK
4.7	Dywedodd JG na allwn "broffesiynoli" chwarae.	
4.8	Gofynnodd SP bod y myfyrwyr Gofal Plant yng Ngholeg Cambria yn cael gwybod am y gwaith yma.	MK / SP
4.9	Gofynnodd y BGC i MK ddod nôl os bydd hi'n wynebu unrhyw rwystrau.	MK
5	Diweddariad gan Fwrdd Partneriaeth Iechyd Da	
5.1	Cyflwynodd RS y gwaith y mae'n ei arwain o ran newid trawsnewidiol ar raddfa fawr i'r system, ac sydd â chydgyfeiriad gyda BGC Sir y Fflint, er mwyn gallu cydweithio rhywfaint.	RS
5.2	Mae RS angen gwneud rhywfaint o waith i ddatblygu'r blaenoriaethau newydd ar gyfer y grŵp yma gan fod gennym ddau fwrdd cyflawni BGC arall.	RS

5.3	Mae rhagnodi cymdeithasol yn faes o gydweithio i'r bwrdd hwn ac mae gwaith da yn cael ei wneud yn ardaloedd Canol a De Wrecsam. Dywedodd RS y byddai'n gofyn i feddyg teulu lleol i ddod i siarad gyda'r BGC am y gwaith yma.	RS
5.4	Mae'r dull partneriaeth sy'n digwydd yng Nghaffi Argyfwng yn enghraifft arall o waith arloesol ac unigryw sydd yn digwydd yn Wrecsam. Cadarnhaodd RS bod yr heriau ariannol sy'n bodoli i gefnogi'r meddyg teulu yn y caffi argyfwng bellach wedi cael eu datrys.	RS
5.5	Mae'r prosiect Rhyddhau i Asesu yn enghraifft arall o gydweithio i gefnogi'r agenda yma. Fe hoffai SS i'r NWFRS fod yn gysylltiedig â'r gwaith yma trwy "gwiriadau diogel ac iach".	RS / SS
5.6	Cytunwyd y gall RS fod yn gysyllt ar gyfer y cydweithio a'r BGC, a bydd y trefniant yma'n parhau am dair blynedd.	RS
6	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac Ymgysylltu â'r Sector Preifat yng Ngogledd Cymru	
6.1	Cyflwynodd SP Iwan Thomas o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.	
6.2	Amlinellodd IT waith y bwrdd sy'n edrych ar ba swyddi sydd mewn perygl, pa anghenion hyfforddi sydd gennym, lle fydd y twf mewn swyddi, a sut y bydd swyddi sgiliau digidol yn tyfu dros y 10 mlynedd nesaf. Gall y Bwrdd helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud cysylltiadau lleol a rhannu cynlluniau lles gyda'u haelodau.	
6.3	Yn ogystal, pwysleisiodd IT bod gan Wrecsam ddylanwad trawsffiniol gyda Lloegr. Mae 28,000 o bobl yn croesi ein ffin bob dydd i weithio yn Wrecsam ac mae 32,000 yn gadael i weithio mewn llefydd eraill.	
6.4	Mae'r cynllun sgiliau yn cynnwys effaith Brexit. Mae yna 14,300 o ddinasyddion yr UE yn gweithio yng ngogledd Cymru, ac yn cynnwys eu teuluoedd, mae dros 20,000 ohonynt yn byw yn yr ardal. Yn bennaf, maent yn gweithio yn y sectorau iechyd a thwristiaeth. Yn ogystal, mae yna dros 3,000 o ddinasyddion yr UE yn astudio yn ein prifysgolion lleol.	
6.5	Mae cwestiynau i Wrecsam yn cynnwys sut ydym am gadw pobl i fyw a gweithio yn Wrecsam? Sut ydym ni'n cynyddu lefelau cyflog cyfartaledd pobl yn Wrecsam? (Mae Airbus a Toyota yn Sir y Fflint a bydd Wylfa yn talu 25% mwy na'r cyflog cyfartaledd ar Ynys Môn).	
7	Diweddariad gan y Bwrdd Dysgu Gydol Oes	
7.1	Dywedodd SP bod aelodaeth y grŵp yma wedi ehangu ac mae bellach yn cynnwys Pennaeth o ysgol Rhiwabon, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae Heddlu Gogledd Cymru wedi mynegi diddordeb. Croeso i bawb.	Pawb
7.2	Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf BGC, rydym yn cofrestru i Gyfnewidfa Cyflogwyr sy'n cael ei redeg gan Gyrfa Cymru. Mae hyn hefyd yn cydfynd ag Addewid y Cyflogwr.	SP
8	Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynglŷn â chysylltiadau gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	
8.1	Mae Sophie Howe yn gofyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y broses lywodraethu rhyngddyn nhw a'r BPRh. Roedd y BGC yn credu ei bod yn rhy fuan i ystyried hynny'n fanwl ar hyn o bryd.	Pawb
9	Unrhyw Fater Arall	
9.1	Fe soniodd JM am y ffaith bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dechrau ar ymgynghoriad 8 wythnos o hyd ar ddyfodol y Gwasanaeth Prawf. Bydd dolen cael ei rhannu er mwyn i aelodau'r BGC gymryd rhan.	JM

Nodwch ddyddiadau ar gyfer Cyfarfodydd 2018 a 2019:

2018

13.12.18 Rhwng 10am a 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans
Wrecsam

2019

14.03.19 Rhwng 10am a 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans
Wrecsam

13.06.19 Rhwng 10am a 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans
Wrecsam

12.09.19 Rhwng 10am a 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans
Wrecsam

12.12.19 Rhwng 10am a 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans
Wrecsam